

## Cynigion ar gyfer swyddogaethau disgyblu Cyngor y Gweithlu Addysg a chod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol newydd ar gyfer y cofrestreion

|   |  |
|---|--|
| <b>Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad</b> | Eich enw: Elaine Edwards<br>Sefydliad (os yw'n briodol): UCAC<br><b>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru</b><br>e-bost: elaine@athrawon.com<br>Rhif ffôn: 01970 639950<br>Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU |
|---|--|

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **1 Rhagfyr 2014** at:

Nathan Huish  
Yr Isadran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1**– A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gyfuno'r pwyllgorau ymddygiad proffesiynol a chymhwysedd proffesiynol yn un pwyllgor addasrwydd i ymarfer?

|   |   |                |                          |
|---|---|----------------|--------------------------|
| <b>OES</b>  | ✓ | <b>NAC OES</b> | <input type="checkbox"/> |
| <b>Os oes, rhowch esboniad.</b>   |   |                |                          |
| <p>Mae'r cynnig yn ymddangos yn rhesymol, ond bydd angen sicrhau bod canllawiau clir gan aelodau'r pwyllgor am natur y gwaith, er mwyn sicrhau bod pob person sydd yn dod gerbron y pwyllgor, beth bynnag y rheswm, yn derbyn triniaeth deg.</p> <p>Rydym yn bryderus am unrhyw oedi gall ddigwydd oherwydd niferoedd gwrandawiadau i un pwyllgor a bydd angen strategaeth glir ac effeithiol i reoli amserlen y pwyllgor ac osgoi oedi di-angen.</p> |   |                |                          |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno y dylid cael un cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach?

|  |   |                |                          |
|--|---|----------------|--------------------------|
| <b>YDW</b>   | ✓ | <b>NAC YDW</b> | <input type="checkbox"/> |
| <b>Os nad ydych, rhowch esboniad.</b>  |   |                |                          |
| <p>Wrth edrych ar y cod unwaith yn rhagor, mae'r cwestiwn yn codi a oes angen cod ymddygiad o gwbl? Mae rhai o'r materion sydd wedi nodi yn y cod ymddygiad yn gorgyffwrdd â rhai o'r 55 o safonau proffesiynol sydd gan athrawon (Safonau Athrawon wrth eu Gwaith).</p> <p>Mae disgwyl i weithwyr byd addysg ymddwyn yn broffesiynol ac i gynnal perthynas broffesiynol gyda disgyblion, rhieni a chydweithwyr. Mae gan ysgolion bolisiau ar waith sydd yn ymwneud â chamymddygiad, mae gweithdrefnau mewn lle ar gyfer ymchwilio i gyhuddiadau, gan gynnwys cyhuddiadau amddiffyn plant, ac mae'n glir pryd dylid cyfeirio achosion at y Cyngor Addysgu Cyffredinol presennol. Yn ogystal, rhaid cofio bod gan bennaeth yr ysgol, y corff llywodraethol a'r Awdurdod Lleol rôl i chwarae wrth bwysu a mesur dirifoldeb ymddygiad athrawon y tu fas i oriau a waliau'r ysgol; dadleuwn yn gryf mai nhw all farnu orau effaith ymddygiad athro yng nghyd-destun y gymuned leol.</p> <p>Pam, felly, mae angen cod ymddygiad? O ran y côd ymddygiad a gynigir (a chod ymddygiad y Cyngor Addysgu Cyffredinol presennol) sut mae disgwyl i unrhyw un gadw mewn cof 39 pwynt am ymddygiad proffesiynol?</p> <p>Byddai cael mwy nag un cod yn cymhlethu pethau'n ddiangen ym marn UCAC.</p> |   |                |                          |

**Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar ddrafft y cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg fel y’i nodir yn Atodiad A?**

|  |   |                |                          |
|--|---|----------------|--------------------------|
| <b>OES</b>   | ✓ | <b>NAC OES</b> | <input type="checkbox"/> |
| <b>Os nad oes gennych sylwadau, rhowch esboniad.</b>   |   |                |                          |
| <p>Mae 39 pwynt yn y cod ymddygiad “newydd” ond mewn gwirionedd nid yw’n newydd o gwbl.</p> <p>Does dim ymdrech wedi bod i ail - ystyried geiriad y cod er mwyn ei addasu i fod yn bwrpasol ar gyfer grwpiau gwahanol o weithwyr gyda chyfrifoldebau gwahanol a chymwysterau gwahanol.</p> <p>Yr unig newid mewn gwirionedd o’r cod ymddygiad presennol ar gyfer athrawon yw cyfeiriadau at gyfrifoldebau “cofrestreion” yn hytrach nag “athrawon” gyda rhai man newidiadau eraill, ond yr un yw’r gofynion.</p> <p>Os mai’r bwriad yw sicrhau bod pawb sydd yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg nid yn unig yn ymwybodol bod cod ymddygiad yn bodoli ond, hefyd, yn ei ddeall ac yn gallu cofio’r gofynion, mae cael 39 pwynt gwahanol yn hollol afresymol.</p> <p>Os oes rhaid cael cod ymddygiad o gwbl dylai fod modd ei gynnwys ar boster ar gyfer yr ystafell staff fel bod modd atgoffa pobl sydd wedi cofrestru o’r disgwyliadau hyn. Byddai modd, fel hyn, sicrhau bod pob sefydliad yn ei arddangos a’i fod yn dod yn berthnasol at waith beunyddiol y bobl ar y gofrestr.</p> <p>Mae’r cod, fel y mae, yn llawer rhy fanwl, yn ail-adroddllyd ac mae’r geiriad yn aml yn lletchwith - mae hyn oll yn eu gwneud yn her fawr i gofio manylion y cod.</p> <p>Byddai cael hyd at 10 pwynt allweddol – a heb fynd i fwy o fanylder - yn ddigon er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei weld fel rhywbeth perthnasol i bob un o’r gweithwyr.</p> |   |                |                          |

**Cwestiwn 4** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae'r iaith ar adegau yn lletchwith neu'n ramadegol anghywir – yn y Saesneg a'r Gymraeg.

Credwn fod y defnydd o'r gair "unplygrwydd" yn anaddas yng nghyd-destun y ddogfen. Mae'n awgrymu "single-mindedness" yn hytrach nag "integrity" fel sydd yn y fersiwn Saesneg. Byddwn yn awgrymu defnyddio'r gair "egwyddorol. – "ymddwyn yn onest ac yn egwyddorol."

Wrth gyfeirio at arholiadau ac asesiadau, mae'r Saesneg yn cyfeirio at "integrity and impartiality" ond dim ond "unplygrwydd" a ddefnyddir yn y Gymraeg.

Mae'r defnydd o'r ymadrodd "model rôl" yn lletchwith. Cydnabyddwn mai anodd iawn yw cyfieithu'r term "role model" ond awgrymwn ddefnyddio "rôl ddylanwadol ar ddisgyblion."

Yn Saesneg mae'r camgymeriad canlynol y digwydd tro ar ôl tro **Registrants: be sensitive...; Registrants: be committed....; Registrants: be open....; Registrants: be mindful...;Registrants: not engage..**

"identify and address issues at all times that might impact on learner's welfare"  
(dim ond un dysgwyr? )

Mae lletchwithdod hefyd mewn rhai brawddegau, e.e. yn yr adran Cydymffurfio â'r Gyfraith

*The council will consider such offences as to their seriousness and relevance to a registrant's registration.*

Pam na: *The council will consider the seriousness of such offences and their relevance to a registrant's registration.*

Ym mhwynt bwled 2 yn yr adran hon nid yw'r fersiwn Cymraeg yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg a chredwn y gellid gwella ar y geiriad yn y ddwy iaith, fel a ganlyn:

*peidio â chymryd rhan nac annog eraill i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch troseddol*

*do not engage or incite others to engage in any criminal activity*

Mae rhagor o wallau yn y ddogfen a chredwn fod angen gwirio bod unrhyw god ymddygiad wedi mynegi'n eglur ac yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn hybu dealltwriaeth lwyrr o'r gofynion.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

